

TROSEDDAU YN ERBYN Y PERSON: TROSOLWG

Prosiect i foderneiddio ac ailddatgan y prif droseddau sy'n ymwneud â thrais yw hwn. Sef:

- (1) y troseddau sydd yn Neddf Troseddau yn Erbyn y Person 1861 ("Deddf 1861"),
- (2) troseddau ymosod a churo sy'n droseddau dan y gyfraith gyffredin, ac
- (3) ymosod ar gwnstabl, sy'n drosedd o dan Ddeddf yr Heddlu 1996.

Pwrpas y prosiect yw disodli'r holl droseddau hyn ag un cod statudol modern a hawdd ei ddeall. Rydym yn argymhell y dylid seilio hyn ar Fesur drafft a gyhoeddwyd gan y Swyddfa Gartref yn 1998, gydag ambell newid a diweddariad.

Pam mae angen y diwygiadau hyn?

Mae'r rhan fwyaf o'r gyfraith sy'n ymwneud â throseddau trais yn Neddf 1861. Mae'r iaith yn hen ffasiwn iawn ac yn anodd ei deall. Dyma ychydig o bwyntiau penodol:

- (1) nid yw'r troseddau wedi'u graddio mewn ffordd glir ac nid yw'r graddio bob tro'n cael ei adlewyrchu yn y pwerau deddfu; er enghraifft, bwriedir i'r trosedd dan a 20 ("Niwed Corfforol Difrifol") fod yn fwy difrifol na'r trosedd o dan a 47 ("Gwir Niwed Corfforol"), ond yr un yw'r ddeddfryd hwyaf ar gyfer y ddau, sef 5 mlynedd;
- (2) mae gormod o droseddau wedi'u diffinio mewn ffordd arbenigol a chul ac yn cynnwys senarios ffeithiol sydd wedi'u disgrifio'n fanwl iawn; anaml y bydd rhai o'r rhain yn digwydd ac mae bron pob un ohonynt wedi'u cynnwys beth bynnag o dan droseddau mwy cyffredinol;
- (3) mae'r un adran yn aml yn disgrifio llawer o wahanol ffyrdd o gyflawni trosedd, ac nid yw'n glir a fwriedir i'r rhain fod yn un trosedd ynteu'n sawl trosedd;
- (4) cyfeirir at gysyniadau nad ydynt yn bodoli rhagor, megis "ffeloniaeth" a "phenyd-wasanaeth", ac ni ddywedir hyd yn oed beth yw'r gosb ar gyfer rhai o'r troseddau hyn.

Braslun o'r diwygiadau

Rhestrir y newidiadau arfaethedig yn gryno yn y tabl isod. Yn y tabl hwn, ystyr "D" yw'r sawl y dywedir ei fod wedi cyflawni trosedd ac "N" yw'r sawl y dywedir iddo gael niwed.

Y trosedd presennol	Yn ei le
Clwyfo neu achosi niwed corfforol difrifol, gyda'r bwriad o wneud niwed corfforol difrifol (oes)	Achosi anaf difrifol yn fwriadol (oes)

Clwyfo'n faleisus neu achosi niwed corfforol difrifol (GBH): Rhaid i D fwriadu neu ragweld risg o ryw niwed, ond nid oes yn rhaid i i'r niwed hwnnw fod yn ddifrifol (5 mlynedd)	Achosi anaf difrifol yn fyrbwyll: Rhaid i D ragweld risg o anaf <i>difrifol</i> (7 mlynedd)
Ymosod sy'n achosi gwir niwed corfforol (ABH): Nid oes yn rhaid i D fwriadu neu ragweld unrhyw niwed o gwbl (5 mlynedd)	1. Achosi anaf yn fwriadol neu'n fyrbwyll, nid o anghenraid drwy ymosod: Rhaid i D ragweld risg o ryw anaf (5 mlynedd) 2. Ymosod dwys, sy'n golygu ymosod sy'n achosi anaf: nid oes angen rhagweld risg o anaf (12 mis)
Ymosod a churo, sydd weithiau'n cael eu cyfuno a'u galw'n "ymosod cyffredin" (6 mis)	1. Ymosod corfforol (6 mis) 2. Bygwth ymosod (6 mis)
Ymosod ar yr heddlu: Nid oes angen i D wybod nac amau bod N yn un o swyddogion yr heddlu (6 mis)	Ymosod ar yr heddlu: Rhaid i D wybod bod N yn un o swyddogion yr heddlu neu fod yn fyrbwyll ynghylch hynny (12 mis)
Ymosod ar glerigwr (2 mlynedd); ymosod ar ynad sy'n gwarchod llongdrylliad (7 mlynedd)	Diddymu
Niwed corfforol difrifol gyda'r bwriad o wrthsefyll arést (oes); ymosod gyda'r bwriad o wrthsefyll arést (2 flynedd)	Achosi anaf difrifol gyda'r bwriad o wrthsefyll arést (dim penderfyniad ynglŷn â'r ddedfryd eto, ond dylai fod yn fwy na 7 mlynedd ac yn llai nag oes); ymosod gyda'r bwriad o wrthsefyll arést (2 flynedd)
Amrywiol droseddau o achosi anaf neu berygl drwy ddefnyddio gwenwynau neu ffrwydrion neu ar reilffyrdd	Disodli'r rhain â llai o droseddau a throeddau symlach, sef achosi perygl (mae achosi gwir anaf yn dod o dan y prif droseddau anafu)
Cymell llofruddiaeth (oes)	Annog llofruddiaeth (oes)
Bygythiadau i ladd (10 mlynedd)	Bygythiadau i ladd, achosi anaf difrifol neu drais rhywiol (10 mlynedd)
Ceisio tagu, atal dianc rhag llongdrylliad, methu â bwydo gweision a phrentisiaid	Diddymu
Gadael plant yn agored i berygl, gosod maglau-dynion, achosi niwed drwy yrru'n wyllt	Gadael yn Neddf 1861

Mae tabl mwy manwl ynghlwm wrth y crynodeb llawn ac wrth yr adroddiad llawn.

Y prif newidiadau

Mae a wnelo'r troseddau pwysicaf yr ydym yn eu hargymell ag achosi anaf. Gall hyn olygu anaf o unrhyw fath (gan gynnwys clefyd), a achosir drwy unrhyw fodd. Yn gyffredinol, pan fydd trosedd yn y Mesur drafft yn cynnwys achosi "anaf difrifol" neu "anaf", rhaid i D hefyd fwriadu neu ragweld anaf difrifol neu anaf, a dibynnu ar yr achos. Mae hyn yn sylweddol wahanol i'r gyfraith bresennol, lle bydd diffyg cyfatebiaeth yn aml rhwng yr hyn y mae'n rhaid iddo ddigwydd a'r hyn y mae'n rhaid i D ei ragweld.

Bwriedir i'r trosedd newydd "ymosod dwys" bontio'r bwlch rhwng y troseddau presennol, sef ymosod cyffredin a gwir niwed corfforol. Mae llawer o achosion sy'n cynnwys anafiadau llai difrifol nad ydynt yn perthyn yn dwt i'r naill drosedd na'r llall:

- (1) Os cyhuddir rhywun o achosi gwir niwed corfforol, efallai y caiff ei roi ar brawf yn Llys y Goron ac y caiff ddedfryd o hyd at 5 mlynedd. O safbwynt ymarferol, serch hynny, bydd dros draean holl ddedfrydau Llys y Goron ar gyfer y trosedd hwn yn ddedfrydau o 6 mis neu lai. Ni chredwn y dylai Llys y Goron fod yn ymdrin ag achosion o'r math hwn.
- (2) Os dygir cyhuddiad o ymosod cyffredin, bydd yr achosion hyn yn aros yn y llys ynadon a'r ddedfryd hwyaf posibl fydd 6 mis. Bydd dioddefwyr yn teimlo'n ddig, a hynny'n ddigon teg, nad yw eu hanafiadau'n cael eu hadlewyrchu yn y cyhuddiad.

Bwriedir i'r trosedd newydd, sef ymosod dwys, gynnwys yr achosion anafu llai difrifol hyn, mewn ffordd sy'n adlewyrchu ac yn cydnabod y ffaith bod anaf wedi'i achosi. Ar yr un pryd, bydd yr achosion hyn yn aros yn y llys ynadon a'r ddedfryd hwyaf fydd 12 mis. Mae hyn yn sicrhau bod achosion yn cael eu rhoi ar brawf mewn llys ar y lefel briodol, ac yn osgoi gorfod mynd drwy weithdrefnau drud Llys y Goron sy'n draul ar amser, pan na fydd angen hynny.